# Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011

**2011 mccc 4**

## RHAN 3

TREFNIADAU LLYWODRAETHU SYDD AR GAEL

*Trefniadau amgen*

### 35 Awdurdodau i roi trefniadau gweithrediaeth yn lle trefniadau amgen

(1) Rhaid i awdurdod lleol sy'n gweithredu trefniadau amgen—

(a) rhoi'r gorau i weithredu trefniadau amgen, a

(b) dechrau gweithredu trefniadau gweithrediaeth.

(2) Mae Atodlen 1 yn cynnwys darpariaeth sy'n ychwanegu at yr adran hon.

(3) Wrth gydymffurfio â'r adran hon ac ag Atodlen 1, rhaid i awdurdod lleol gydymffurfio â chyfarwyddiadau a roddir gan Weinidogion Cymru.

### 36 Darpariaeth ganlyniadol etc

(1) Yn Neddf Llywodraeth Leol 2000—

(a) yn adran 29 (gweithredu trefniadau gweithrediaeth a rhoi cyhoeddusrwydd iddynt), hepgorer is-adran (3);

(b) yn adran 31 (trefniadau amgen yn achos awdurdodau lleol penodol), o flaen is-adran (1) mewnosoder—

"(A1) In this section references to a local authority are references to a local authority in England.";

(c) yn adran 32 (trefniadau amgen), o flaen is-adran (1) mewnosoder—

"(A1) In this section references to a local authority are references to a local authority in England.";

(d) hepgorer adran 33 (gweithredu trefniadau amgen);

(e) yn adran 34 (refferendwm yn dilyn deiseb), yn is-adran (3), yn lle “29 or 33” rhodder “or 29”;
(f) yn adran 35 (refferendwm yn dilyn cyfarwyddyd), yn is-adran (3), yn lle “29 or 33” rhodder “or 29”;
(g) yn adran 36 (refferendwm yn dilyn gorchymyn), yn is-adran (3), yn lle “29 or 33” rhodder “or 29”.

(2) Yn y Mesur hwn, hepgorer adran 87(3).

(3) Yn Neddf Llywodraeth Leol 1972—
(a) yn adran 70 (cyfyngu ar hybu Mesurau seneddol i newid ardaloedd llywodraeth leol, etc), yn is-adran (3), hepgorer “or alternative arrangements”;
(b) yn adran 270 (darpariaethau cyffredinol ynglŷn â dehongli), yn is-adran (1) hepgorer y diffiniad o “alternative arrangements”.

(4) Dirymir y rheoliadau a ganlyn—
(a) Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cynigion ar gyfer Trefniadau Amgen) (Cymru) 2001 (O.S 2001/2293);
(b) Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Newid Trefniadau Gweithrediaeth a Threfniadau Amgen) (Cymru) 2004 (O.S. 2004/3158);
(c) Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Amgen) (Cymru) 2007 (O.S. 2007/397).

(5) Nid yw is-adrannau (1) i (4) yn atal awdurdod lleol sy'n gweithredu trefniadau amgen ar y dyddiad cychwyn rhag parhau i weithredu'r trefniadau hynny ar y diwrnod hwnnw ac wedi hynny.

(6) Nid yw is-adrannau (1) i (4) yn cael effaith mewn perthynas ag awdurdod lleol os yw'r awdurdod lleol yn parhau i weithredu trefniadau amgen ar y dyddiad cychwyn ac wedi hynny, ac am gyhyd ag y pery i wneud hynny.

(7) Nid yw is-adrannau (5) ac (6) yn effeithio ar ddyletswydd awdurdod lleol o dan adran 35.

(8) Yn yr adran hon, ystyr “dyddiad cychwyn” mewn perthynas â diwygiad a wneir gan yr adran hon, yw'r dyddiad y daw'r diwygiad hwnnw i rym.